



Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
The National Library of Wales  
Aberystwyth

---

# Wyneb Digidol y Llyfrgell

---

Strategaeth  
Cyfryngau Digidol  
LIGC

---

2012 - 2015

---



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Wyneb Digidol y Llyfrgell: Strategaeth Cyfryngau Digidol LIGC 2012-15

## 1. Crynodeb

Nod y strategaeth hon yw adeiladau ar y cynnydd a wnaed yn y strategaeth flaenorol, er mwyn galluogi'r Llyfrgell i ddatblygu ei defnydd o blatfformau, cynnwys a thechnolegau, er mwyn cynnig gwell profiad cyffredinol i ddefnyddwyr.

Ysgrifennwyd y strategaeth hon i gydbblethu â Strategaeth Gorfforaethol y Llyfrgell 'Y Llyfrgell Ystwyth: Strategaeth y Llyfrgell 2011-12 – 2013-14' (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=corporateplan&L=1>) a strategaethau allweddol eraill o fewn a'r tu allan i'r sefydliad (gweler 'Aluniad Strategol' isod). Mae'r ymdriniaethau hyn yn ategu a chefnogi ei gilydd, gan adlewyrchu gwerthoedd craidd y Llyfrgell:

*'Mae gan y Llyfrgell ddyletswydd nid yn unig i 'ddal ei drysau'n agored', ond i hybu'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o'i chasgliadau a'i gwasanaethau, ym mhob modd sydd ar gael iddi.'*<sup>1</sup>

Bydd gwireddu'r strategaeth hon yn sialens, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, serch hynny, mae'r Llyfrgell yn ffyddiog y gall gyflawni'r nodau o fewn yr amserlen, a thrwy hynny, adeiladu portffolio digidol llawnach a mwy cydlynol sy'n adlewyrchu natur agored a chynhwysfawr y Llyfrgell.

## 2. Cyflwyniad

Roedd Strategaeth Gwe flaenorol y Llyfrgell 'Rhannu, Cydweithio, Arloesi: strategaeth ar gyfer y we 2009-11' yn canolbwyntio ar brif wefan y Llyfrgell a galluogi'r Llyfrgell i ymgorffori'r cyfryngau cymdeithasol ym mhob agwedd o'i gwaith.

Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Llyfrgell wedi mabwysiadu'r strategaeth honno'n llwyr, ac wedi cyflawni ei phrif nodau. Er enghraifft, mae presenoldeb y Llyfrgell ar y cyfryngau cymdeithasol wedi datblygu, a bellach maent yn cael eu gweld fel modd canolog o gyrraedd defnyddwyr. Mae blog cyffredinol hefyd wedi ei sefydlu i'r Llyfrgell fel modd o rannu gwybodaeth ac mae mwy a mwy o amser yn cael ei fuddsoddi ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth staff. O ganlyniad, mae portffolio gwe'r Llyfrgell yn cwmpasu llawer mwy nag o'r blaen, ac wedi cyrraedd defnyddwyr a chymunedau newydd, gan ymdrochi ei hun yn eu ffordd o gyfathrebu a rhannu. Mewn nifer o ffyrdd mae hyn wedi golygu newid mawr, nid yn unig yn y ffordd mae'r Llyfrgell yn cyfathrebu ag eraill, ond hefyd yn y modd y mae'n gweld ei hun. Erbyn hyn mae'n sefydliad llawer mwy agored sy'n cydweithio ag eraill llawer mwy, ac sy'n ceisio agor a rhannu ei hadnoddau gyda'r byd pryd bynnag y bo hynny'n bosib. Roedd gan y strategaeth flaenorol ran i chwarae yng ngwireddiad hyn.

---

<sup>1</sup> 'Y Llyfrgell Ystwyth: Strategaeth y Llyfrgell 2011-12 – 2013-14' tud 4  
<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=corporateplan&L=1> (Agorwyd ar 10.2.12)

Mae'r strategaeth hon yn anelu i fynd yn bellach, gan adeiladu ar sylfaeni'r strategaeth flaenorol. Rydym yn byw mewn byd digidol sydd yn newid yn gyson, lle mae technolegau a datblygiadau newydd yn herio'r sector treftadaeth ddiwylliannol yn feunyddiol. Gobeithiwn y bydd y strategaeth hon, gyda'i phedair prif thema, Defnyddwyr, Platfformau, Cynnwys a Thechnoleg, yn ein tywys drwy'r cyfnod cyffrous hwn gan ein galluogi i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym, er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd trwy blatfformau newydd, ac i rannu ein casgliadau a'n gwybodaeth mewn ffyrdd newydd ac arloesol.

Yn wahanol i strategaethau cynt, bydd hon yn strategaeth cyfryngau digidol, ac felly'n ein caniatáu nid yn unig i ddatblygu ein defnydd o ofodau digidol, boed hynny ar-lein neu mewn sefyllfaoedd ffisegol, ond hefyd i wella aluniad y rhain a'n datblygiadau 'gwe' arferol, fydd, gobeithio yn cynnig gwell profiad i'n defnyddwyr wrth iddynt symud drwy'n portffolio amrywiol.

### **3. Themâu**

Gellir rhannu datblygiadau mwy penodol y strategaeth dros y tair blynedd nesaf i bedair prif thema: Defnyddwyr, Platfformau, Cynnwys a Thechnolegau. Trafodir isod y prif yrrwyr a datblygiadau ar gyfer y pedwar categori, a pham fod y rhain yn allweddol i bortffolio ar-lein y Llyfrgell.

#### **3.1. Defnyddwyr**

Mae ei defnyddwyr wrth galon darpariaeth ddigidol y Llyfrgell, boed hynny'n ddefnyddwyr sy'n dychwelyd yn rheolaidd i'w safleoedd neu'n ddefnyddwyr un tro sy'n digwydd taro ar neges Twitter gan y Llyfrgell. Mae pob defnyddiwr yr un mor bwysig, ac mae'r Llyfrgell yn ymdrechu i ddatblygu gwasanaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion orau.

Trwy gyfnod y strategaeth ddiwethaf mi ymdrechodd y Llyfrgell i ddarganfod barn ei defnyddwyr ar ei darpariaethau, gan geisio eu gwella mewn perthynas â'r ymatebion, serch hynny mae'r Llyfrgell yn ymrwymedig i wneud mwy. Bydd yn parhau i ddefnyddio dulliau ystadegol i fesur llwyddiant gwasanaethau, ond bydd hefyd yn gwneud mwy i ganfod barn, sydd yn aml yn fwy defnyddiol, ond llawer anoddach i'w ganfod.

Mae ei defnyddwyr yn ganolog i holl strategaethau'r Llyfrgell, ac nid yw'r Strategaeth Cyfryngau Digidol hon ddim gwahanol. Portffolio digidol y Llyfrgell yw ei ffenest siop ar y byd, a'r ffordd hwylusaf i nifer o ddefnyddwyr i ryngweithio â'r Llyfrgell, ac felly gosodir defnyddwyr yn ganolog i'r holl nodau allweddol a nodir isod.

#### **3.2. Platfformau**

Defnyddir y we yn ddyddiol trwy amryw blatfformau gwahanol, o borwyr gwe traddodiadol i'r we symudol ac 'apps', o deledyddion sy'n arddangos y we i'r gemau cyfrifiadurol diweddaraf.

Mae'n bwysig felly fod y strategaeth wedi ei datblygu â hyn mewn cof, er mwyn galluogi'r Llyfrgell i ddatblygu ei darpariaeth ddigidol mewn perthynas â'r hyn a welir fwy fwy gan ddefnyddwyr fel y modd naturiol o ryngberthynu. Anghenion y defnyddwyr hyn ddylai yrru'r newidiadau yn y platfformau mae'r Llyfrgell yn eu defnyddio. Tra canolbwyntiodd y strategaeth ddiwethaf ar ddatblygu darpariaeth y Llyfrgell ar ei phrif wefan a symud i'r byd Gwe 2.0, mae'r strategaeth newydd yn symud fwy tuag at wireddu potensial y platfformau digidol eraill er mwyn cyrraedd grwpiau newydd o ddefnyddwyr.

Mae'n bwysig i gadw mewn cof y gallwn wneud defnydd mawr o'r rhain o fewn yr adeilad ei hun, nid o bell yn unig e.e. datblygu arwyddion digidol ac elfennau digidol o fewn arddangosfeydd.

### **3.3. Cynnwys**

Mae cynnwys wrth gwrs yn ganolog i holl bresenoldeb digidol y Llyfrgell, boed hynny fel rhan o'r brif wefan, ar wefannau cyfryngau cymdeithasol neu sgriniau ffisegol mewn arddangosfeydd. Mae datblygiad cynnwys felly wrth galon y strategaeth.

At bwrrpas y strategaeth hon mae 'cynnwys' yn cwmpasu prif wefannau'r Llyfrgell, pob is-wefan sy'n perthyn i'r Llyfrgell, cynnwys ar y gwefannau cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw gynnwys a ddatblygwyd ar gyfer sgriniau ffisegol. Nid yw'n cynnwys y platfformau darganfod adnoddau, y siop ar-lein na Chasgliad y Werin Cymru, gan y llywodraethir y rhain gan strategaethau eraill.

Mae digido yn chwarae rôl bwysig yng nghread cynnwys digidol y Llyfrgell, ac mae ei phrif wefan yn ganolog i sut mae'r casgliadau digidol hyn yn cael eu rhannu gyda defnyddwyr.

Mae'r thema hon hefyd yn cynnwys pob agwedd ar ddadansoddi ystadegau gwe. Mae gennym fynediad at gwmpawd eang o wybodaeth ystadegol, ac mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y gorau o'r wybodaeth hon er mwyn datblygu a gwella ein darpariaethau mewn perthynas ag anghenion ein defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr.

### **3.4. Technoleg**

Mewn maes sy'n datblygu a newid mor sydyn, mae'n hanfodol ein bod yn cadw llygad ar y technolegau diweddaraf, ac yn cymryd mantais ohonynt lle bynnag y bod hynny'n briodol. Yr elfen dechnolegol bwysicaf o'r strategaeth hon fydd asesu ein system rheoli cynnwys presennol, Typo3<sup>2</sup>. Mae'r Llyfrgell wedi bod yn defnyddio Typo3 ers 2007 i reoli creu tudalennau ar nifer o'i phrif wefannau, ac mae'n bryd asesu a yw'r system yn parhau i ddiwallu ein hanghenion ni a'n defnyddwyr.

---

<sup>2</sup> Mae Typo3 yn feddalwedd system rheoli cynnwys agored sy'n galluogi nifer o gyfranwyr gwahanol i gyfrannu at greu gwefannau heb unrhyw wybodaeth dechnegol.

Fel y mae'r cyfryngau digidol yn datblygu gan ddefnyddio technolegau newydd mae'n hanfodol fod amser ac adnoddau yn parhau i fod ar gael i staff ymgymryd ag ymchwil i mewn i bethau fel 'apps', er mwyn sicrhau fod y Llyfrgell yn gallu manteisio i'r eithaf lle bo hynny'n briodol.

Mae'r Llyfrgell yn ymrwymedig i ryddhau data lle bod hynny'n bosibl a bod hawliau'n caniatáu, er mwyn i ddefnyddwyr ail-ddefnyddio cynnwys i greu eu prosiectau digidol eu hunain. Mae'r technolegau a phlatfformau a ddefnyddir i rannu'r data hwn yn arbennig o bwysig wrth gwrs, a bydd y Llyfrgell yn edrych ar hyn wrth i fwy a mwy o gasgliadau gael eu digido. Mae'r gwaith hwn yn mynd law yn llaw gyda'r gwaith â amlinellir yn y Strategaeth Ddigidol newydd.

Elfen arall bwysig o symud i ddefnyddio technolegau newydd yw hyfforddiant staff. Mae cyfran uchel o staff y Llyfrgell bellach yn cyfrannu i'w phortffolio ar-lein mewn rhyw fodd, ac felly mae'n bwysig iawn ein bod yn asesu anghenion hyfforddiant staff ac yn darparu hyfforddiant addas ac amserol fel bo angen. Mae datblygu hyder staff i gyfrannu ar-lein yn bwysig, a'r ffordd orau o wneud hyn yw i ddarparu'r hyfforddiant gorau posib a chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen.

## **4. Nodau Strategol Allweddol**

### **4.1. Cynnwys**

Yn amlwg mae cynnwys yn ganolog i bresenoldeb ar-lein y Llyfrgell, ac felly mae'n iawn ei fod yn chwarae rôl allweddol yn y Strategaeth Cyfryngau Digidol newydd. Mae'r Llyfrgell yn creu cyfoeth o gynnwys digidol yn barod, o gynnwys mwy traddodiadol ar gyfer ei gwefannau, i gofnodion catalog a delweddau digidol i rannu ar wefannau trydydd parti.

Mae'r Strategaeth Cyfryngau Digidol hwn yn gobeithio adeiladu ar y cynnwys presennol, a datblygu ffyrdd newydd a gwell o gynnig mynediad i'r cynnwys, gan ddod â gwell cydlyniad a hwyluster symudiad rhwng y gwahanol wefannau a phlatfformau. Ar hyn o bryd mae portffolio'r Llyfrgell ychydig yn ddatgymalog gyda datblygiadau unigol yn cael eu datblygu'n ynysig. Un o brif amcanion y strategaeth yw adeiladu gwell perthynas rhwng y datblygiadau er mwyn gwella profiad y defnyddiwr yn sylweddol.

#### *Darpariaethau Allweddol*

- Ail-ysgrifennu ardaloedd allweddol o brif wefan y Llyfrgell er mwyn cynnig gwell strwythur i'r safle, ac i alluogi negeseuon craidd fel codi arian a chymorth i gael eu clymu trwy'r safle
- Dod a gwefannau a safleoedd cyfryngau cymdeithasol gwahanol ynghyd trwy ddarparu gwell dolenni trwy'r cynnwys, a gwneud hyn yn rhan annatod o greu cynnwys yn y dyfodol. Edrychir hefyd ar sicrhau fod y data o fewn is-wefannau wedi ei ffedereiddio fel bod modd cael mynediad at y data o wefannau eraill

- Arbrofi gyda ‘crowdsourcing’ trwy glustnodi rhai prosiectau posib a chreu deunydd hyfforddi. Fe fyddai hyn yn cael ei weld fel modd o gyrraedd arbenigedd mewn meysydd arbennig yn hytrach na modd o arbed arian.
- Datblygu canllawiau canolog yn nodi gofynion lefel uchel ar gyfer prosiectau/is-wefannau er mwyn sicrhau cydlynid ar draws presenoldeb ar-lein y Llyfrgell. Hefyd, sefydlu grŵp canolog fydd yn penderfynu ar ba gynnwys ddylai gael ei gyflwyno trwy is-wefan, a beth ddylid ei ymgorffori o fewn darpariaethau ar-lein presennol y Llyfrgell
- Adolygu system rheoli cynnwys (Typo3) y Llyfrgell i asesu ei briodoldeb i ddiwallu anghenion y Llyfrgell
- Rhoddir rheolaeth gyffredinol dros gynnwys y brif wefan i'r e-Olygydd, gan alluogi'r swydd hon i wneud y penderfyniadau olaf ar ba gynnwys y dylid/na ddylid ei ychwanegu at y brif wefan
- Bydd pob darpariaeth ar-lein yn cydymffurfio â chanllawiau WCAG 2.0 y W3C er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Gwahaniaethau ar Sail Anabledd y DU

#### 4.2. Y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Ar-lein

Yn dilyn cwblhau'r strategaeth ddiwethaf, mae gan y Llyfrgell bellach bresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol. Nod y strategaeth hon yw adeiladu ar y presenoldeb hwn a gwella sut mae'r Llyfrgell yn defnyddio ei phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a sut mae'n cysylltu â'r gymuned. Mae potensial enfawr i wneud pethau newydd ac arloesol gyda'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae'r Llyfrgell bellach mewn sefyllfa i ymgymryd â'r sialens hon. Ar hyn o bryd defnyddir y cyfryngau cymdeithasol fel modd o rannu gwybodaeth yn unig, ond gobeithir dros y tair blynedd nesaf y byddant yn datblygu fwy fwy yn offer i gysylltu â chynulleidfaoedd newydd a ffyrdd o annog defnyddwyr i ryngweithio gydag arddangosfeydd a digwyddiadau.

Mae'r Llyfrgell hefyd wedi dechrau gwneud mwy yn nhermau hysbysebu ar-lein dros gyfnod y strategaeth ddiwethaf, ond teimlir fod llawer mwy sydd angen wneud. O ganlyniad i leoliad daearyddol anodd y Llyfrgell, mae hyrwyddo ar-lein yn caniatáu i'r Llyfrgell gysylltu â defnyddwyr na fyddai gobaith ganddi gysylltu â nhw trwy ddulliau marchnata traddodiadol. Mae'n hanfodol felly fod y Llyfrgell yn cofleidio'r modd hwn o farchnata, nid yn unig er mwyn llwyfannu ei chynnyrch ar-lein, ond i werthu brand y Llyfrgell i ddefnyddwyr newydd nad ydynt wedi clywed amdani o'r blaen.

##### *Darpariaethau Allweddol*

- Bydd y Llyfrgell yn datblygu ei defnydd o e-Gylchlythyron ac offer marchnata ar-lein eraill megis 'hash tags' a 'QR codes'
- Bydd datblygu'r defnydd o wefannau cyfryngau cymdeithasol mewn arddangosfeydd a digwyddiadau yn flaenoriaeth i'r Llyfrgell, gan alluogi defnyddwyr o bell i rannu yn y profiad
- Datblygu blogio o fewn y Llyfrgell a pharhau i asesu'r ddarpariaeth blogio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni anghenion presennol y Llyfrgell. Er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, defnyddir offer marchnata ar-lein newydd ac arloesol i godi profil y ddarpariaeth blogio

### 4.3. Dyluniad a Chydlyniad Brand

Mae dilyniant brand ac elfennau dyluniad yn arbennig o bwysig i'r Llyfrgell oherwydd ehangder y gwahanol ddarpariaethau ar-lein a gynigir. Mae'r portffolio'n rhedeg o wefannau mawr a gwasanaethau darganfod adnoddau i bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol i arwyddion digidol a llawer mwy. Tra bod y Llyfrgell yn cydnabod bod angen elfen o hyblygrwydd rhwng dyluniad y gwahanol ddarpariaethau hyn, mae'n hanfodol fod brand craidd yn glir ar draws bob platfform.

Fel rhan o'r strategaeth hon, ac eraill, bydd y Llyfrgell yn ymgymryd â'r gwaith o ddiffinio ei brand yn glir. Bydd yn gweithio ar draws y darpariaethau presennol fel rhan o ymarferiad ail-ddylunio ar-lein cyffredinol er mwyn sicrhau eu bod yn cydblethu gyda brand ac elfennau dyluniad y Llyfrgell. Gobeithir y bydd hyn y sicrhau bod defnyddwyr sy'n ymweld ag unrhyw elfen o'n portffolio yn gallu adnabod perchnogaeth, a hunaniaeth elfennau brand craidd y Llyfrgell.

#### *Darpariaethau Allweddol*

- Ail-ddylunio rhyngwynebau presennol LIGC, ac yn dilyn hyn bydd holl is-wefannau'r dyfodol yn defnyddio 'is-ddyluniad' o brif ddyluniad LIGC
- Ôl-drosi darpariaethau presennol i adlewyrchu dyluniad newydd LIGC
- Brand LIGC i fod yn allweddol ar draws holl ddarpariaeth ar-lein LIGC

### 4.4. Y We Symudol ac 'Apps'

Mae'r Llyfrgell yn cydnabod bod newid sylweddol wedi bod yn ystod oes y strategaeth ddiwethaf yn nhermau sut mae defnyddwyr yn cael mynediad i'r we. Mae mynediad symudol i'r we yn cynyddu'n gyflym ac mae'n gyfrifoldeb ar y Llyfrgell i ymateb i hyn. Gellir pori trwy bortffolio gwe'r Llyfrgell ar declynnau symudol a tabledau ayb, ond nid oes fersiynau symudol penodol wedi eu creu eto ar gyfer y mwyafrif o safleoedd. Wrth gwrs mae goblygiadau i greu fersiynau symudol penodol o safleoedd, yn arbennig os oes rhai llai'n cael eu creu ar gyfer teclynnau symudol bach a tabledau, serch hynny mae'n rhaid i'r Llyfrgell ymchwilio i mewn i beth sydd angen ar ei defnyddwyr.

Ar hyn o bryd nid yw'r Llyfrgell yn cynnig 'apps' ei hun. Mae yn cyfrannu at 'apps' allanol e.e. Casgliad y Werin Cymru, ond nid yw wedi datblygu unrhyw 'apps' penodol. Mae hwn yn sicr yn faes mae'r Llyfrgell â diddordeb ynddo, wrth i fwy a mwy o ddefnyddwyr ryngberthynu gyda sefydliadau treftadaeth diwylliannol trwy 'apps'.

#### *Darpariaethau Allweddol*

- Yn seiliedig ar ymchwil, bydd y Llyfrgell yn edrych ar y posibilrwydd o greu fersiwn symudol penodol o'i phrif wefan yn y lle cyntaf. Mae hyn yn cydblethu gyda'r ymrwymiad i'r we symudol a ddisgrifir ym mhwynt 6.1.2.3 o 'Strategaeth Disgrifio a Darganfod Adnoddau' y Llyfrgell
- Bydd grŵp yn cael ei sefydlu i edrych ar y posibilrwydd o greu 'apps', eu natur, technolegau a chynulleidfa

- Bydd y Llyfrgell yn edrych ar ‘apps’ allanol y gellid eu defnyddio i greu ffyrdd newydd ac arloesol o gael mynediad at gynnwys y Llyfrgell e.e. Layar

#### **4.5. Ehangu Digwyddiadau**

Mae digwyddiadau ffisegol yn chwarae rhan bwysig yn narpariaeth y Llyfrgell. O arddangosfeydd a digwyddiadau o fewn yr adeilad, i fynychu gwyliau a rhaglenni estyn allan, mae'r Llyfrgell yn cynnal rhaglen lawn o ddigwyddiadau amrywiol wedi eu hanelu at ddod a'n casgliadau i gynulleidfaoedd amrywiol.

Tan nawr, mae'r digwyddiadau wedi bod, i raddau helaeth, yn ddigwyddiadau ffisegol, gyda gwybodaeth hyrwyddo yn unig ar-lein. Mae'r Strategaeth Cyfryngau Digidol hon serch hynny yn anelu at ehangu'r digwyddiadau trwy greu elfennau ar-lein, gan ddefnyddio amryw o wahanol blatfformau i ategu'r digwyddiadau ffisegol. Mae lleoliad daearyddol y Llyfrgell yn gwneud mynychu digwyddiadau o fewn yr adeilad yn anodd i nifer a fyddai wedi dymuno ymweld, dyna pam fod ehangu'r digwyddiadau yn dod yn fwyfwy pwysig.

##### *Darpariaethau Allweddol*

- Edrych ar ddatblygu arddangosfeydd ar-lein i atgyfnerthu arddangosfeydd corfforol dethol yn yr adeilad
- Gwneud defnydd gwell o arwyddion digidol o fewn yr adeilad ac mewn digwyddiadau allanol. Rhedir y rhain o system rheoli cynnwys canolog y Llyfrgell, fydd yn galluogi eu hail-ddefnyddio ar-lein a sicrhau dilyniant brand
- Gwneud defnydd o dechnolegau fel ‘QR codes’, ‘apps’ a ‘hash tags’ i ychwanegu dimensiwn newydd i ddigwyddiadau ffisegol
- Sicrhau fod cyflwyniadau a darlithoedd yn y DRWM yn cael eu rhannu ar-lein lle mae hawliau'n caniatáu

#### **4.6. Datblygiad yn Seiliedig ar Ddadansoddi Ystadegau ac Adborth Defnyddwyr**

Mae'r Llyfrgell yn casglu amrywiaeth o wahanol fathau o wybodaeth ystadegol, boed hynny'n ddata ffigurol o becynnau ystadegol neu yn wybodaeth am farn o adborth defnyddwyr. Mae'r wybodaeth hon yn arbennig o bwysig i'r Llyfrgell er mwyn gallu datblygu darpariaethau newydd, ond hefyd i arolygu llwyddiant gwasanaethau presennol, a sicrhau bod y rhain yn parhau i gyflawni gofynion defnyddwyr.

Mae'r Llyfrgell hefyd yn awyddus i glymu'r ystadegau hyn gydag ystadegau eraill cyffredinol y mae'r Llyfrgell yn eu casglu. Mae'n bwysig cofio bod ffactorau ffisegol yn effeithio ar sut y defnyddir gwasanaethau ar-lein, ac felly mae'n hanfodol fod y ddau set o ddata'n cael eu dadansoddi law yn llaw, yn hytrach na fel dau endid ar wahân.



### *Darpariaethau Allweddol*

- Yn arferol, lle bynnag y bydd modd ychwanegir Google Analytics i wefannau newydd
- Parhau i arolygu ystadegau ar-lein (ffigyrau a barn) er mwyn datblygu gwasanaethau newydd ac ehangu rhai presennol
- Cynnal dealltwriaeth o becynnau ystadegol newydd er mwyn sicrhau y defnyddir y pecynnau mwyaf addas
- Arolygu ystadegau ar-lein mewn perthynas ag ystadegau eraill cyffredinol y mae'r Llyfrgell yn eu casglu er mwyn adeiladu darlun llawn o anghenion ac ymddygiad defnyddwyr
- Arolygu a newid Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth y we mewn perthynas â phatrwm cyffredinol tuedd adrodd ystadegol yn y sector treftadaeth ddiwylliannol

#### **4.7. Hyfforddiant a Rhannu gyda'r Gymuned**

Mae'r Llyfrgell bob amser wedi buddsoddi yn ei staff, ac mae creu gweithlu hyblyg yn ganolog i'w ethos, ac nid yw staff sy'n cyfrannu i'w darpariaeth ar-lein yn eithriad. Gan adeiladu ar y rhan bwysig y chwaraeodd hyfforddiant yn y strategaeth ddiwethaf, mae'r strategaeth hon yn anelu at wneud mwy i hyfforddi staff i ddelio gyda natur gyfnewidiol ein darpariaethau ar-lein, gan ei galluogi i wynebu sialensiau newydd gyda hyder.

Fel sefydliad cenedlaethol, dwyieithog sydd â chryn brofiad mewn datblygu cynnwys ar-lein, mae'r Llyfrgell yn ymdrechu i roi'n ôl i'r gymuned trwy rannu profiadau a gwybodaeth. Mae hwn yn rhan bwysig iawn o'r strategaeth, ac un a ddylai ddatblygu dros fywyd y strategaeth. Mae'r Llyfrgell yn arbennig o brofiadol mewn delio gyda chynnwys dwyieithog ar-lein, gan ei bod yn sefydliad cyfan gwbl ddwyieithog.

### *Darpariaethau Allweddol*

- Bydd y Llyfrgell yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff, gan sicrhau ei fod yn berthnasol ac amserol er mwyn creu gweithlu hyblyg a hyderus
- Cefnogir ac anogir staff wrth iddynt ddysgu am wasanaethau newydd, a bydd Tîm y We yn parhau yn agored i bob aelod staff sydd angen cymorth a chefnogaeth yn ystod eu taith ar-lein
- Bydd y Llyfrgell yn gwneud mwy o rannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda'r gymuned, trwy rannu canllawiau a pholisïau lle bod hynny'n bosibl a chymryd rhan mewn mwy o gynadleddau, seminarau a llunio papurau academaidd

## **5. Sgiliau ac Adnoddau**

### **5.1. Sgiliau Allweddol**

Mae cyflawni'r strategaeth hon yn ddibynnol ar amrediad eang o staff o fewn y Llyfrgell, nid ar staff yr Uned Cyfryngau Digidol o fewn yr Isadran TGCh yn unig.

Bydd angen amser ac arbenigedd y staff hynny er mwyn cyflawni'r strategaeth. Bydd angen i'r gwaith hwn gael ei amserlennu i mewn i gynlluniau gweithredu'r isadrannau er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael.

## **5.2 Datblygu Sgiliau a Gwybodaeth**

Mae'r strategaeth newydd yn galw am ddatblygu sgiliau staff mewn gwahanol feysydd, er enghraifft dysgu sut orau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn ehangu digwyddiadau'r Llyfrgell ac arddangosfeydd, a sut i gael y mwyaf allan o hyrwyddo ar-lein.

Bydd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth. Sicrhaodd y strategaeth ddiwethaf sail gadarn i staff, ond mae'r strategaeth hon yn galw am ddatblygu a gwella'r sgiliau hyn er mwyn ei chyflawni.

## **5.3 Gwasanaethau Allanol**

Mae rhan helaeth o'r strategaeth hon yn ddibynnol ar gymryd mantais o wasanaethau allanol e.e. gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Llyfrgell yn ddibynnol felly ar sgiliau ac adnoddau'r gwasanaethau hyn er mwyn darparu ein cynnwys. Tra bod elfen o risg i hyn, mae yn golygu y gall y Llyfrgell arbed swm sylweddol o arian gan nad oes rhaid i'r Llyfrgell ddatblygu gwasanaethau ei hun, a sicrhau adnoddau i'w cynnal.

# **6. Risgiau**

## **6.1 Peidio Derbyn y Strategaeth**

Y prif risg o beidio â derbyn y Strategaeth Cyfryngau Digidol yw y byddai hyn wrth gwrs yn gadael y Llyfrgell heb gyfeiriad yn y maes hwn dros y tair blynedd nesaf, a byddai darpariaeth ddigidol y Llyfrgell yn aros yn ei hunfan.

Mae'r byd digidol yn lle sy'n newid yn gyflym, ac mae'n hanfodol fod y Llyfrgell yn cadw i fyny gyda hyn, ac yr un mor bwysig, yn cadw i fyny gyda sefydliadau treftadaeth diwylliannol eraill. Wrth i sefydliadau eraill ddatblygu gwasanaethau newydd a chyffrous, mae defnyddwyr yn disgwyl i sefydliadau mawr eraill wneud yr un peth. Bydd y strategaeth hon yn caniatáu i'r Llyfrgell wneud hynny, a chael ei gweld fel sefydliad blaengar.

## **6.2 Diffyg Adnoddau**

Yn yr hinsawdd economaidd presennol mae cyflawni strategaethau newydd bob amser yn sialens, ond fel y nodwyd yn y strategaeth, mae'r Llyfrgell yn hyderus y gall gyflawni'r nodau a osodwyd. Gan ddilyn yr adnoddau allweddol a nodwyd uchod (Sgiliau ac Adnoddau), mae'r Llyfrgell yn hyderus fod ganddi'r ddarpariaeth er mwyn cwblhau'r strategaeth ar hyn o bryd.

Mae defnyddio gwasanaethau trydydd parti hefyd yn cynorthwyo'r Llyfrgell i gyflawni ei nodau gan mai cyfran fechan, os gwbwl, o gymorth technegol sydd angen i'w defnyddio, ac mae hyn yn rhyddhau adnoddau i wneud pethau eraill.

### **6.3 Gwasanaethau Trydydd Parti**

Mewn un ffordd, tra bod y gwasanaethau trydydd parti yn rhad ac am ddim, maent yn cynorthwyo i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â'r strategaeth, ond mewn ffordd arall maent yn ei gynyddu. Wrth ddefnyddio'r safleoedd trydydd parti hyn e.e. Twitter a Facebook, mae'r Llyfrgell mewn rhai achosion ar drugaredd eu darpariaeth. Petai'r gwasanaethau hyn yn dod i ben neu'n dewis newid eu darpariaeth neu'n dechrau codi tâl, mi fedrai'r Llyfrgell ganfod ei hun mewn sefyllfa lle gallai golli'r cynnwys a ychwanegwyd neu'r ffwythiant a gynigir.

Teimla'r Llyfrgell fod hwn yn risg sy'n werth ei gymryd cyn belled â bod y buddion o ddefnyddio'r gwasanaeth yn ddigon. Yn aml mae'r cynnwys a gynigir trwy un gwefan trydydd parti hefyd ar gael trwy wefan arall, ac felly mae'r cynnwys yn parhau ar gael ar-lein. Trwy brif wefannau'r Llyfrgell y cynigir mynediad i gynnwys craidd y Llyfrgell bob amser, ac felly dim ond gwybodaeth ychwanegol neu fynediad a gynigir trwy wefannau trydydd parti.

### **6.4 Y Byd Digidol yn Newid**

Fel y nodwyd uchod, mae'r byd digidol yn newid yn gyson gyda gwasanaethau newydd ac arloesol yn cael eu cynnig yn ddyddiol. Mae'r Llyfrgell wedi amlinellu sut y bydd yn cyfrannu at y byd hwn dros y tair blynedd nesaf, ond mae risg y gall pethau fod wedi newid yn sylweddol erbyn y drydedd flwyddyn, ac na fyddai'r strategaeth mor berthnasol erbyn hynny.

Er mwyn goroesi hyn, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar themâu lefel uchel sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r byd digidol cyfnewidiol am rai blynyddoedd i ddod. Trwy wneud hyn, caniateir i'r Llyfrgell addasu manylion y strategaeth yn ôl yr angen er mwyn cydblethu ag unrhyw newidiadau.

## **7. Aliniad Strategol**

Crëwyd y Strategaeth Cyfryngau Digidol mewn partneriaeth â strategaethau eraill, rhai yn rhai mewnol ac eraill yn allanol. Nodir y rhain isod:

### **7.1 Strategaethau'r Llyfrgell<sup>3</sup>**

- 2020: Golwg hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru (2010)

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r weledigaeth bresennol o le fydd y Llyfrgell erbyn y flwyddyn 2020. Bydd y Strategaeth Cyfryngau Digidol yn chwarae rhan annatod yng

---

<sup>3</sup> <http://www.llgc.org.uk/index.php?id=policiesstrategies&L=1> (Agorwyd 15.2.12)

nghynorthwyo'r Llyfrgell i addasu i gwrdd â sialensiau'r byd cyfnewidiol a amlinellir yn y weledigaeth.

- Y Llyfrgell Ystwyth: Strategaeth y Llyfrgell 2011-12 – 2013-14

Y Llyfrgell Ystwyth yw strategaeth gorfforaethol y Llyfrgell, ac mae'n amlinellu bwriad cyffredinol y Llyfrgell ar gyfer datblygu tan y flwyddyn 2014, ac felly mwyafrif oes y Strategaeth Cyfryngau Digidol. Mae'r strategaeth hon yn gosod y cyfryngau digidol wrth galon nifer o'i Phrif Ddatblygiadau e.e. Hyblygrwydd Gwybodaeth a Chynnwys a Hyblygrwydd yn ein Perthynas â'n Defnyddwyr

- Strategaeth Disgrifio a Darganfod Adnoddau 2010/11 – 13/14

Nod y strategaeth hon yw gwella'r modd y mae defnyddwyr yn darganfod a chael mynediad i adnoddau'r Llyfrgell, ac mae'n cwmpasu catalogau'r Llyfrgell a mynediad i adnoddau allanol. Mae'r Strategaeth Cyfryngau Digidol yn cydblethu gyda hon er mwyn cynnig gwell profiad i ddefnyddwyr sy'n symud o ddarpariaethau eraill y Llyfrgell i'w chatalogau ayb.

- Polisi Gwarchod Data

Bydd y Strategaeth Cyfryngau Digidol yn cydymffurfio â'r canllawiau ynghylch amddiffyn gwybodaeth bersonol defnyddwyr a sicrhau fod y Llyfrgell yn cyflawni ei oblygiadau moesol a chyfreithiol fel yr amlinellir yn y Polisi Gwarchod Data.

- Cynllun Iaith Gymraeg 2010 – 2014

Gan gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Llyfrgell, bydd holl ddarpariaeth ar-lein y Llyfrgell yn hollol ddwyieithog, gyda phob gwefan ar gael yn y ddwy iaith, a'r holl gynnwys ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu 2011-14

Fel y nodir yn glir yn y Strategaeth Cyfryngau Digidol, mae technoleg yn chwarae rôl allweddol yn natblygiad portffolio ar-lein y Llyfrgell. Bydd y datblygiadau hyn yn cael eu gweithredu yn unol â'r canllawiau a nodir yn Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Llyfrgell.

- Croesawu Newid: Strategaeth yr Adran Gwasanaethau Gyhoeddus 2011-14

Mae darpariaethau ar-lein yn treiddio trwy waith yr holl Adran Gyhoeddus, a gellir gweld hyn yn glir yn y strategaeth. Mae'r Strategaeth Cyfryngau Digidol felly yn ategu hyn, gan alluogi'r Adran i gyflawni ei nodau.

## 7.2 Strategaethau sydd ar y gweill gan y Llyfrgell

- Strategaeth Ddigidol 2011/12 – 14/15

Mae Strategaethau Digidol a Chyfyngau Digidol y Llyfrgell yn gweithio law yn llaw i sicrhau'r mynediad gorau i'w chynnwys digidol, boed hynny ar wefannau'r Llyfrgell neu ar wefannau trydydd parti e.e. Flickr Commons.

- Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol 2011-2014

Y Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol sy'n sicrhau cadwraeth hir dymor cynnwys digidol y Llyfrgell. Bydd y strategaeth hon yn cefnogi'r gwaith hwn trwy'r dewis o blatfformau a ddefnyddir a'r cyfeiriad a roddir, er mwyn sicrhau fod copïau o gynnwys digidol allweddol y Llyfrgell wedi eu diogeli i'r dyfodol.

- Strategaeth Codi Incwm

Mae Strategaeth Codi Incwm y Llyfrgell yn amlinellu sut mae'r Llyfrgell yn bwriadu codi incwm dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y Strategaeth Cyfyngau Digidol hon yn ategu'r nodau hynny trwy gynnig presenoldeb ar-lein cadarn i'r Llyfrgell a fydd yn ei galluogi i gyflawni ei nodau e-fasnach yn effeithiol.

## 7.3 Strategaethau Allweddol Eraill

- Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith Strategol ar gyfer Datblygu Llyfrgelloedd Cymru 2012- 2016<sup>4</sup>

Bydd Strategaeth Cyfyngau Digidol y Llyfrgell yn ei chynorthwyo i gyflawni ei rôl wrth weithredu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Llyfrgelloedd yng Nghymru, trwy alluogi defnyddwyr o ar draws y wlad i gael mynediad i wasanaethau eu Llyfrgell Genedlaethol lle bynnag y bônt yn byw yng Nghymru.

- Cyflawni Cymru Ddigidol: Fframwaith Amlinellol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gweithredu

Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Ddigidol yn nodi'n glir ei nod y dylai holl bobl Cymru gael mynediad i dechnolegau a gwasanaethau digidol. Mae'r Llyfrgell eisoes wedi cofleidio'r digidol, a'r Strategaeth Cyfyngau Digidol hon yw un ffordd y bydd y Llyfrgell yn cyfrannu i'r weledigaeth, trwy gynnig mwy o wasanaethau

---

<sup>4</sup><http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/libraries/librariesinspire/?skip=1&lang=cy> (Agorwyd 15.2.12)

a chynnwys digidol ar-lein, gan alluogi pob Cymru ymhlith eraill i fwynhau ei darpariaeth.

- Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru<sup>5</sup>

Rhan allweddol o raglen Llywodraeth Cymru yw 'Diwylliant a Threftadaeth Cymru'. Mae'r Llyfrgell yn brif bartner wrth gyflawni'r nod hon, a bydd darpariaeth ar-lein y Llyfrgell yn chwarae rôl er mwyn agor cynulleidfau'r Llyfrgell i Gymru gyfan, a hefyd wrth gryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg trwy ei darpariaeth hollol ddwyieithog.

## 8. Mesur ein Llwyddiant

Bydd cyflawni'r Nodau Strategol hyn yn cael eu mesur gan fwy na dim ond cynnydd yn nhrosglwyddiant y cynnwys a'r gwasanaethau trwy ddarpariaethau digidol. Yn ychwanegol, mi fyddwn yn parhau i fesur llwyddiant y Strategaeth Cyfryngau Digidol trwy ymgymryd â'r dadansoddiad isod, gan chwilio am gyfleoedd parhaus i wella ein hymdriniaeth yng ngoleuni newidiadau i anghenion defnyddwyr a thechnolegau. Ymgymerir â'r dadansoddiad hwn yn rheolaidd, ac fe'i hadroddir i'r pwyllgorau perthnasol.

- Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth

Mae'r Llyfrgell yn darparu Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth (DPG) chwarterol ar ddata ystadegol allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn ystod cyfnod y strategaeth fe ail-asesir a diwygir y rhain yn sylweddol, gyda setiau data addas ar gyfer y byd digidol cyfnewidiol wedi eu dewis ar gyfer adrodd i'r dyfodol.

- Adroddiadau Ystadegol Chwarterol ar Nodau Allweddol

Bob chwarter adnabyddir nodau arbennig, a llunnir adroddiadau i asesu effaith pob nod, gan alluogi newidiadau wedi eu seilio ar dystiolaeth ystadegol. Anfonir yr adroddiadau hyn at Banel y We a'r Grŵp Defnyddwyr ar gyfer trafodaeth bob chwarter.

- Adroddiadau Zeitgeist Chwarterol ar Dueddiadau Allweddol

Adnabyddir setiau o ddata ystadegol allweddol (e.e. cyfraddau adlamu, hits ayb) a llunnir adroddiadau ystadegol chwarterol ar y rhain. Cylchredir yr adroddiadau i Banel y We a'r Grŵp Defnyddwyr.

- Rhyngberthynas Cyfryngau Cymdeithasol Gweithredol

---

<sup>5</sup> <http://new.wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/?skip=1&lang=cy> (Agorwyd 15.2.12)

Yn ychwanegol at fonitro nifer y dilynwyr sydd gan y Llyfrgell ar y gwefannau cyfryngau cymdeithasol, fe fonitrir nifer y rhyngberthyniadau yn chwarterol hefyd. Bydd hyn yn cynnwys sylwadau, tagiau a chrybwylliadau (mentions). Danfonir yr adroddiad i Banel y We a'r Grŵp Defnyddwyr.

- Ymweliadau Ffisegol

Bydd yr e-Olygydd yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gyhoeddus er mwyn mesur faint o ymwelwyr ffisegol â'r adeilad sydd wedi defnyddio gwasanaethau ar-lein y Llyfrgell cyn ymweld. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Llyfrgell yn edrych ar ffyrdd newydd, gwell o gasglu gwybodaeth, gan alluogi gwell darlun o ymddygiad defnyddwyr. Llunnir yr adroddiad hwn ddwywaith y flwyddyn a'u danfon at Banel y We.

- Ymatebion Adborth

Mae gan y brif wefan fecanwaith er mwyn galluogi defnyddwyr i ddweud a oedd tudalen yn ddefnyddiol neu beidio ag i adael sylw. Cynhyrchir adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar gyfer Panel y We, yn cynnwys y lefel boddhad, ond hefyd lle mae sylwadau negyddol wedi eu derbyn ac mae newidiadau er gwell wedi eu cyflawni o'r herwydd.

- Ymchwil Defnyddioldeb

Lle mae'n addas a bod adnoddau'n caniatáu, bydd y Llyfrgell yn ymgymryd ag ymchwil defnyddioldeb, a hynny cyn datblygu gwefannau mawr newydd, a hefyd wrth ymgymryd ag ymchwil er mwyn datblygu darpariaethau presennol, yn arbennig y brif wefan.

- Holiaduron Defnyddwyr

Fe ddefnyddir holiadur defnyddwyr ar y brif wefan yn arbennig, o dro i dro, er mwyn mesur pa mor dda mae'r wefan yn perfformio. Fe ddefnyddir y rhain hefyd wrth ddatblygu unrhyw newidiadau sylweddol i'r wefan.

- Adborth Cyfryngau Cymdeithasol

Mae dilynwyr cyfryngau cymdeithasol y Llyfrgell yn parhau i gynyddu, a bydd y Llyfrgell yn awyddus i ddysgu o brofiad y gymuned hon er mwyn cynorthwyo i ddatblygu darlun o sut mae ei phortffolio gwe yn perfformio, boed hynny yn nhermau'r cyfryngau cymdeithasol neu wefannau mwy traddodiadol.